Adroddiad i'r Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod 18 Mai 2021

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Richard Mainon / Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Awdur yr Adroddiad: Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Teitl Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn am benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gan fod blwyddyn y cyngor newydd yn dechrau ym Mai mae'n briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol yn unol â gofynion statudol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn ail-benodi cadeirydd ac aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn 2021 / 2022 y Cyngor; a

3.2 Bod y Cyngor yn ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.

4. Manylion yr Adroddiad

Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

4.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau cefnogol yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol yn aelodaeth y Cyngor i gael ei

adlewyrchu yn yr aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor (er nad yw'r Cabinet wedi ei gynnwys yn y gofyniad hwn o'r Ddeddf).

4.2. Mae aelodau'r Cyngor wedi eu rhannu yn grwpiau gwleidyddol gwahanol, gyda grŵp yn ddau neu fwy o gynghorwyr sydd yn arwyddo hysbysiad i'r awdurdod yn datgan eu bod yn dymuno cael eu cofnodi fel bod yn aelod o grŵp penodol. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau fod y nifer o seddi ar bwyllgorau penodol (y rheiny wedi'u hadnabod yn ôl statud) wedi eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol yn yr un gyfran â'r nifer o aelodau ym mhob grŵp o aelodaeth y Cyngor. Er enghraifft, os yw aelodaeth Grŵp A yn cynrychioli traean o aelodau'r Cyngor, byddai Grŵp A yn cael traean o'r seddi ar y pwyllgorau sydd yn gorfod cael cydbwysedd gwleidyddol. Mae modd rhoi'r gofyniad i un ochr ar yr amod na fydd aelod o'r Cyngor yn pleidleisio yn erbyn gwneud hynny.

4.3. Mae'r Cyngor angen ystyried o leiaf yn flynyddol sut y mae aelodaeth ei bwyllgorau yn berthnasol i faint y grwpiau. Dangosir ffigurau cydbwysedd gwleidyddol ac aelodaeth y pwyllgorau cyfredol yn atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

4.4 Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi pwyllgor i adolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

4.5 Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

4.6 Rhaid i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys a rhaid i'r Cyngor benodi cadeirydd nad yw'n aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o'r grŵp Llafur neu Blaid Cymru. Mae'r Cynghorydd Alan James wedi bod yn Gadeirydd y pwyllgor tan gyfarfod y Cyngor heddiw, ond bydd angen penodi Cadeirydd newydd i'r pwyllgor ar etholiad y Cynghorydd James yn Gadeirydd y Cyngor.

4.7 Mae aelodau presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu dangos yn atodiad 2.

Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

4.8 Yn ôl egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion Craffu, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 bydd gan y Grwpiau a gynrychiolir yn y Cabinet (Annibynnol a Cheidwadwyr), yr hawl i gadeirio 1 o'r 3 pwyllgor craffu, a bydd y grwpiau hynny'n penderfynu ymysg ei gilydd pa un o'u haelodau cymwys fydd yn gadeirydd. Mae Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru â'r hawl i benodi 1 cadeirydd craffu'r un.

4.9 Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion craffu, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd craffu yn wag am ryw reswm. Felly mae penodi cadeiryddion am y flwyddyn ddinesig newydd yn fater i'r grwpiau gwleidyddol i'w ystyried ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn ganolog i'r systemau democrataidd a phwyllgorau sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau a nodwyd yn codi o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn i gynnal adolygiad blynyddol o ddyraniad seddi pwyllgor yn unol â gofynion cydbwysedd gwleidyddol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorir â'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol yn y Cyngor ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu ag adolygu aelodaeth pwyllgorau, llenwi swyddi gwag ac ati, yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn mynd yn groes i ofynion statudol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972